Teitl y Swydd: **Cynorthwyydd Dysgu Graddedig**

## CYFATHREBU

### Cyfathrebu ar lafar

Derbyn, deall a throsglwyddo gwybodaeth syml yn rheolaidd mewn ffordd glir a chywir.

Derbyn, deall a chyfleu gwybodaeth yn rheolaidd sydd angen esboniad neu ddadansoddiad gofalus i helpu eraill i'w deall, gan roi ystyriaeth i'r hyn sydd i'w gyfathrebu a'r ffordd orau i drosglwyddo'r wybodaeth i eraill.

Derbyn, deall a chyfleu syniadau cysyniadol cymhleth neu wybodaeth gymhoadol cymhlet

### Prif ffocws
Delio â chysylltiadau mewnol neu allanol sy'n gofyn am wasanaeth neu sydd eisiau gwybodaeth; creu delwedd gadarnhaol o'r sefydliad trwy ymateb yn brydlon i geisiadau a chyfeirio'r defnyddiwr at y person priodol os oes angen. Y cwsmer sy'n cysylltu fel rheol a gan amlaf mae'n ymwneud â thasgau arferol gyda safonau neu ddulliau gweithredu penodol.

### Ffocws eilaidd
Delio â chysylltiadau mewnol neu allanol yn achlysurol lle mae'r gwasanaeth fel rheol yn cael ei

## DADANSODDI AC YMCHWIL

### Gofynion ymhlyg

Nodi ffeithiau sylfaenol mewn sefyllfaoedd lle mae angen ymchwiliad pellach a rhoi gwybod i eraill os oes angen.

### Prif ffocws

Dansoddi data neu wybodaeth arferol gan ddefnyddio gweithdrefnau sydd wedi'u gosod ymlaen llaw a chasglu gwybodaeth o ffynonellau safonol; gweithio'n gywir er mwyn cwblhau'r dasg yn union fel y'i pennwyd.

### Ffocws eilaidd

Nodi dull priodol sydd eisoes yn bodoli ar gyfer dadansoddi neu ymchwilio yn ôl y data a'r amcanion; nodi a dehongli tueddiadau neu batrymau mewn data; nodi neu ddod o hyd i wybodaeth ychwanegol a all fod o gymorth i'r ymchwiliad wrth i'r dadansoddi fynd rhagddo.

## GOFYNION SYNHWYRAIDD A CHORFFOROL

Gwneud tasgau ar lefel fyddai angen naill ai ddysgu rhai dulliau neu drefniadau arbennig neu a fyddai'n cynnwys ymdrech gorfforol gymedrol.

## AMGYLCHEDD GWAITH

### Prif ffocws

Gweithio mewn amgylchedd sy'n gymharol sefydlog ac sy'n cael ychydig o effaith ar ddeiliad y swydd neu'r ffordd y caiff y gwaith ei wneud.

### Ffocws eilaidd

Yn achlysurol bydd angen i ddeiliad y swydd ddeall sut y gall yr amgylchedd gwaith effeithio ar eu gwaith eu hunain a gwaith cydweithwyr gan weithredu, o fewn canllawiau iechyd a diogelwch lle bo'n briodol, i addasu i'r amgylchedd.

## GOFAL A LLES BUGEILIOL

Bydd angen i ddeiliad y swydd ddangos sensitifrwydd yn rheolaidd tuag at rai sydd efallai angen help neu, mewn achosion eithriadol, sy'n amlwg wedi cynhyrfu; dylid gweithredu'n briodol drwy gynnwys y bobl berthnasol.

O bryd i'w gilydd, rhoi cyngor ar faterion lles neu ymholiadau cyffredin; dilyn gweithdrefnau lles safonol ar gyfer y sefydliad; gwybod pryd y dylid cyfeirio unigolyn at rywun arall i gael cymorth

O bryd i'w gilydd, hyfforddi neu arwain pobl eraill ynglŷn â thasgau, materion neu weithgareddau penodol; rhoi cyngor, arweiniad ac adborth ar sail eu gwybodaeth neu eu profiad eu hunain; cyflwyno hyfforddiant.

## CEFNOGAETH ADDYSGU A DYSGU

Cynllunio cynnwys neu ddeunyddiau dysgu o fewn fframweithiau presennol; gwneud addasiadau priodol i ddeunyddiau presennol ar sail gwybodaeth neu brofiad y dysgwr/dysgwyr i gyflwyno myfyrwyr neu eraill sy'n newydd i'r maes i wybodaeth neu weithdrefnau safonol.

Darparu gwybodaeth safonol neu gyflwyno addysgu neu hyfforddiant i ddysgu neu hyfforddi myfyrwyr neu bobl eraill ar dasgau, materion neu weithgareddau penodol; asesu perfformiad a darparu adborth yn ystod y digwyddiad.

## GWYBODAETH A PHROFIAD

Defnyddio ehangder neu ddyfnder profiad gan ddangos gwybodaeth a hyfedredd llawn mewn maes arbenigedd; gweithredu fel pwynt cyfeirio i bobl eraill; dangos datblygiad arbenigol parhaus, ennill a mireinio sgiliau ac arbenigedd mewn meysydd newydd neu berthnasol drwy wneud gweithgareddau datblygu mewnol neu allanol a'u hannog.